Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartrefi Cymru Co-operative Gwent**

**Cartrefi Cymru**
**Heol y Felin**
**Pontnewynydd**
**Pont-y-pŵl**
**NP4 6NG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

**20, 25 a 26 Mai 2022**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartrefi Cymru Co-operative Gwent

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr cofrestredig | Cartrefi Cymru Co-operative Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus â'r cymorth cartref y maent yn ei dderbyn. Mae cynlluniau gofal personol yn canolbwyntio ar y person, yn fanwl, ac yn rhoi arweiniad i'r staff ei ddilyn. Mae'r cymorth a ddarperir yn galluogi'r bobl i gynnal a gwella eu hannibyniaeth a'u sgiliau domestig, ac i fwynhau bywyd yn y gymuned. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau eu hunain a gallant wneud eu dewisiadau eu hunain cyn belled ag y bo modd. Mae'n amlwg bod y staff yn adnabod y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn dda a'u hoffterau a'u dewisiadau. Mae'r bobl yn parhau i fod mor iach ag y gallant fod oherwydd atgyfeiriadau amserol at weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae angen gwelliannau o ran rhoi meddyginiaeth. Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn ystod ein harolygiad yn gyffredinol hapus yn eu rolau. Fodd bynnag, mae lefelau staffio isel a phroblemau recriwtio drwy gydol y pandemig diweddar wedi effeithio ar lesiant a chefnogaeth y staff. Mae angen gwelliannau o ran goruchwyliaeth staff ffurfiol. Mae trefniadau llywodraethu ar waith sy'n cefnogi gweithrediad y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hannog yn gadarnhaol i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwerth chweil ac ystyrlon ac yn cael eu hannog i gynnal bywyd cymdeithasol gweithgar. Mae'r gweithwyr gofal yn meithrin cydberthnasau â'r bobl, ac yn ceisio eu barn a'u hoffterau yn barhaus. Mae cynlluniau gofal personol yn amlygu cryfderau, hoffterau a nodau personol y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn galonogol, yn garedig ac ar gael i gynorthwyo'r bobl i wneud yr hyn y maent am ei wneud. Mae'r staff gofal yn annog y bobl i gael trefn arferol a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae systemau addas ar waith i gefnogi'r bobl i ymweld a chael ymweliadau gan eu teuluoedd a'u ffrindiau. Darperir cefnogaeth i gael mynediad i ddigwyddiadau yn y gymuned, mynychu digwyddiadau cymdeithasol gyda theulu a ffrindiau.

Mae ystod o gyfleoedd ar gael i'r bobl fynegi eu barn a'u safbwyntiau'n ffurfiol ac yn anffurfiol. Cadarnhaodd y bobl y siaradwyd â nhw eu bod yn cael dewisiadau a bod rhywun yn gwrando arnynt. Roedd trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol a defnyddir safbwyntiau'r bobl i barhau i ddatblygu a gwella gwasanaethau.

Cynorthwyir y bobl i aros mor iach â phosib. Mae'r gweithwyr gofal yn annog y bobl i wneud dewisiadau bwyd iach. I'r bobl hynny sydd angen cymorth i fwyta ac yfed, mae'r gweithwyr gofal yn sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu.  Mae’r bobl wedi datblygu perthynas dda gyda’r gweithwyr gofal y maent yn eu hadnabod yn dda ac mae hyn yn helpu i gefnogi llesiant ac iechyd emosiynol y bobl. Mae apwyntiadau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu trefnu ar gyfer gwiriadau rheolaidd neu os bydd anghenion unigol yn newid.

Mae mesurau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae asesiadau risg priodol ar waith, lle bo angen yn unol ag anghenion unigol. Mae risgiau a nodwyd i'r bobl yn cael eu rheoli a'u monitro fel eu bod yn cael eu cefnogi i aros yn ddiogel a bod eu rhyddid yn cael ei barchu. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn pryderu am rywun, maent yn gyfarwydd â’r mathau o gam-drin a’r dangosyddion hynny ac wedi dweud wrthym ba gamau y byddent yn eu cymryd. Dywedodd y staff eu bod yn hyderus i roi gwybod am unrhyw bryderon a'u bod yn teimlo y byddai rhywun yn gwrando arnynt ac y byddai camau'n cael eu cymryd. Mae hawliau'r bobl a all fod yn methu â gwneud penderfyniadau ynghylch eu gofal yn cael eu hamddiffyn. Gwelsom dystiolaeth o asesiadau gallu yn cael eu cynnal a chofnodion budd pennaf mewn ffeiliau unigol.

Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo’r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Gofynnir am ddewis iaith i dderbyn gofal a chymorth yn ystod yr asesiad. Gall y darparwr gynnig dogfennau allweddol yn Gymraeg os gofynnir amdanynt.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl y siaradwyd â nhw yn gadarnhaol ynghylch y gofal y maent yn ei dderbyn ac yn canmol y staff gofal a'r darparwr. Dywedodd un person, *“Dwi’n hapus iawn gyda’r gefnogaeth dwi'n ei chael”* a dywedodd un arall, *“Mae'r staff yn wych ac maen nhw bob amser yno i fy helpu*”.

Mae cynlluniau personol yn unigol ac yn nodi'r hyn sy'n bwysig i bob person. Mae cynlluniau'n cynnwys gwybodaeth am y ffordd orau i'r staff gefnogi unigolion. Mae'r rhain yn cynnwys trefn ddyddiol fanwl, gweithgareddau a fwynheir a sut mae'r bobl yn mynegi eu teimladau. Maent hefyd yn cynnwys sut i gefnogi'r bobl yn ddiogel os ydynt yn dangos unrhyw ymddygiad heriol. Lle mae cyfyngiadau angenrheidiol wedi'u gwneud er budd pennaf y bobl i reoli eu diogelwch, mae'r rhain yn ymddangos yn gymesur. Gwelwyd bylchau yn yr adolygiad o gynlluniau mewn cynlluniau lle nad oedd rheolwr wedi’i benodi i swyddi gwag. Mae'r darparwr wrthi'n recriwtio i swyddi gwag ac yn adleoli’r rheolwyr i gynnal rhywfaint o gymorth rheoli ar draws pob cynllun. Mae angen gofal a sylw dyledus i sicrhau bod cofnodion dyddiol yn adlewyrchu'r gofal a'r cymorth a ddarperir a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar fywydau'r bobl. Ymwelsom ag un cynllun byw â chymorth a dywedwyd wrthym gan y bobl a oedd yn derbyn gwasanaeth sut yr oeddent yn cwblhau eu dyddiaduron dyddiol eu hunain. Mae’r gofal a ddarperir yn cael ei gynllunio a’i ddylunio trwy ymgynghori â'r bobl, eu teuluoedd/cynrychiolwyr, a gweithwyr proffesiynol.

Gall y bobl gael mynediad at y gwasanaethau iechyd angenrheidiol i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae hyn yn cynnwys mynediad at wasanaethau meddyg teulu. Gwelsom fod unigolion wedi cael eu hatgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn ôl yr angen. Gwelsom gynlluniau bwyta ac yfed manwl, gan gynnwys cymorth i gynnal deiet iach. Mae’r gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd naturiol, gyfeillgar, ofalgar a thosturiol. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac felly yn gallu sylwi ar unrhyw newidiadau yn gyflym ac ymateb yn brydlon.

Mae systemau ar waith i reoli meddyginiaeth y bobl. Mae polisïau a gweithdrefnau meddyginiaeth y gwasanaeth yn gyfredol ac yn unol â deddfwriaeth feddyginiaeth gyfredol. Mae trefniadau diogel ar gyfer storio meddyginiaeth. Mae'r staff gofal yn derbyn hyfforddiant mewn meddyginiaeth. Mae angen gwelliannau o ran y gwaith o gofnodi a rhoi meddyginiaeth. Er enghraifft, gwelwyd bylchau mewn llofnodion staff ar gofnodion rhoi meddyginiaeth. Ni nodwyd dyddiad agor meddyginiaeth hylif yn gyson i sicrhau nad oedd y dyddiad dod i ben wedi mynd heibio. Mae hwn yn faes i’w wella a byddwn yn dilyn trywydd hyn yn ein harolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith sy'n cefnogi gweithrediad y gwasanaeth. Mae'r model gofal a ddisgrifir yn natganiad o ddiben y gwasanaeth yn adlewyrchu’n gywir y cymorth a ddarperir. Mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i gefnogi’r gwaith o ddarparu gofal, a chânt eu hadolygu'n barhaus. Mae adroddiadau sy'n dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ar gael. Maent yn dangos trafodaethau gyda'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth a’r staff gofal ac yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Cynhyrchir adroddiadau ansawdd gofal yn rheolaidd.

Mae trefniadau penodi a gwirio addas ar waith i alluogi darparwr y gwasanaeth i benderfynu ar benodiad staff. Gwelsom ffeiliau'r staff a gwelsom y cafodd y gwiriadau cyn-cyflogaeth angenrheidiol eu cynnal. Mae dulliau adnabod a geirdaon yn cefnogi addasrwydd unigol y staff i weithio yn y gwasanaeth ymhellach.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal wrthym eu bod yn hapus yn eu rôl a gwnaethant siarad yn gadarnhaol am eu cyflogaeth. Soniodd rhai o'r gweithwyr gofal am y pwysau yr oeddent yn ei deimlo oherwydd swyddi gwag staff a rheolwyr a chymysgedd sgiliau’r staff yr oeddent yn gweithio gyda nhw. Mae gan y darparwr broses recriwtio barhaus ar waith. Mae'r darparwr yn defnyddio staff asiantaeth i lenwi bylchau mewn staffio. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym y gall hyn weithiau roi pwysau ychwanegol ar y staff mwy profiadol. Ni ddarperir cymorth i’r gweithwyr gofal bob amser, gan gynnwys staff asiantaeth yn dilyn digwyddiadau o ymddygiad heriol. Nodwyd bylchau mewn goruchwyliaeth staff a chadarnhawyd y rhain gan y staff y siaradwyd â nhw. Mae'r cymorth un-i-un hwn yn rhoi cyfle i aelodau staff drafod unrhyw bryderon neu anghenion hyfforddi sydd ganddynt ac i'w rheolwr llinell roi adborth ar eu perfformiad gwaith. Mae hwn yn faes i’w wella a byddwn yn dilyn trywydd hyn yn ein harolygiad nesaf.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw’r gweithwyr gofal yn cael cymorth a | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | goruchwyliaeth yn rheolaidd. | |
| 58 | Roedd y cofnodion o roi meddyginiaeth yn anghyson ac yn ddryslyd, ni nodwyd dyddiadau agor meddyginiaeth hylif. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/07/2022